Fforwm) a siop ddillad Briggs ym Mlaenau Ffestiniog, y lleoliad ym maes tanio Bronaber, Castell Harlech, a'r daith gerdded i fyny a thros Fwlch y Gerddinen. Ar ôl ymweld â Beddgelert, credaf ein bod yn gwybod pa lwybr fu i uned fy nhad ei ddilyn dros gadwyn fynyddoedd Bwlch y Rhediad i gyrraedd yno o'u gwersyll yn Nolwyddelan!! Y cwbl sydd arnom ni ei angen rŵan ydy rhywun sy'n ddigon ifanc i ddangos sut bu i'r milwyr ei wneud! Pwy sydd am roi cynnig arni??
Y peth gorau am fy ymweliad byr oedd cyfarfod â chi oll! Tydy'r hyn ysgrifennodd fy nhad am y bobl heb newid - rydych chi i gyd yr un mor groesawgar a chyfeillgar... a'r tri yr un mor hyfryd.

Diolch yn arbennig i Dafydd Ellis am roi araith oedd wedi'i pharatoi mor dda yn y seremoni, i Helen ac Adam Hardy am roi llety imi yng Ngwesty Castell Elen a'r ffrindiau newydd hynny o America ddaeth i'r gwesty i siarad – Bob, Ali a Connie, ac i Sharon Yates am wneud fideo o'r digwyddiad a rhoi copïau o araith Dafydd imi.

Mae Dolwyddelan yn lle arbennig iawn i fyw ynddo, mawr obeithiaf y byddwch yn gallu parhau i'w gadw yn arbennig – mae a wnelo â'r bobl, nid dim ond y lle! Edrychaf ymlaen at ymweliad arall rhyw bryd!!

Diolch yn fawr unwaith eto,
George Studor

---


# HZW DESIGNS



Helena Z Wróblewska,
Arlunydd Proffesiynol

07828 761114
Angorfa, 3 Bron Llan, Dolwyddelan

Helena Wróblewska
HZWDesigns@Protonmail.com
www.hzwdesigns.com

**ARCHEBWCH YN GYNNAR AR GYFER Y NADOLIG...**

**Comisiynau hynod mewn inc a dyfrlliw.**
**Portreadau wedi'u peintio mewn acrylig ar lechen neu ganfas.**
**Cyfansoddiadau amrywiol eraill ar gais gan y cwsmer.**
**Anrhegion, cardiau a phapur lapio.**